C Ff G
BCW
Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

AROLWG O ETHOLAETHAU SENEDDOL A RHANBARTHAU ETHOLIADOL Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

ARGYMHELLION DROS DRO

Ionawr 2004

Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg neu yn Saesneg

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

AROLWG O ETHOLAETHAU SENEDDOL A RHANBARTHAU ETHOLIADOL Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL YNG NGHYMRU

ARGYMHELLION DROS DRO

CYNNWYS

1. **CYFLWYNIAD**

2. **CRYNODEB O'R ARGYMHELLION**

3. **ETHOLAETHAU SENEDDOL**

4. **CLWYD**

5. **DYFED**

6. **GWENT/MORGANNWG GANOL**

7. **GWYNEDD**

8. **MORGANNWG GANOL**

9. **POWYS**

10. **DE MORGANNWG**

11. **GORLLEWIN MORGANNWG**

12. **RHANBARTHAU ETHOLIADOL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

13. **MANYLION CYHOEDDI**

14. **CYFNOD AR GYFER CYFLWYNO SYLWADAU**

15. **NODYN CEFNDIR**

Atodiad 1	**Map o'r Etholaethau Arfaethedig – Clwyd**
Atodiad 2	**Map o'r Etholaethau Arfaethedig – Dyfed**
Atodiad 3	**Map o'r Etholaethau Arfaethedig – Gwent/Morgannwg Ganol**
Atodiad 4	**Map o'r Etholaethau Arfaethedig – Gwynedd**
Atodiad 5	**Map o'r Etholaethau Arfaethedig – Powys**
Atodiad 6	**Map o'r Etholaethau Arfaethedig – De Morgannwg**
Atodiad 7	**Map o'r Etholaethau Arfaethedig – Gorllewin Morgannwg**
Atodiad 8	**Etholwyr Rhanbarthau Etholiadol**
Atodiad 9	**Map o Ranbarthau Arfaethedig y Cynulliad**

1. CYFLWYNIAD

1.1 Ym mis Rhagfyr 2002 cyhoeddodd y Comisiwn y pumed arolwg cyffredinol o etholaethau seneddol yng Nghymru, ynghyd ag arolwg o ranbarthau etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Ceir crynodeb o'r fframwaith statudol perthnasol ac ymagwedd cyffredinol y Comisiwn tuag at yr arolygon yng nghyhoeddiad y Comisiwn, "Arolwg o Etholaethau Seneddol a Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad Cenedlaethol yng Nghymru" (2003), sydd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg gan y Comisiwn neu ar wefan y Comisiwn yn www.comffin-cymru.gov.uk.

1.2 Mae'r Comisiwn bellach yn cyhoeddi ei argymhellion dros dro, h.y. cynigion cychwynnol y Comisiwn, ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r argymhellion hynny yn ystyried datblygiadau ers yr arolwg cyffredinol diwethaf, gan gynnwys newidiadau a wnaed i'r siroedd cadwedig, ardaloedd awdurdod lleol a rhanbarthau etholiadol. Pwysleisir, fodd bynnag, bod yr argymhellion a'r rhesymau y maent yn seiliedig arnynt oll yn rhai dros dro (felly dylid darllen cyfeiriadau at argymhellion, penderfyniadau, casgliadau, ac ati o fewn y ddogfen hon yn unol â hynny) ac y rhoddir pwyslais mawr ar y cyfle a roddir bellach i bawb dan sylw wneud sylwadau, boed hynny o blaid neu yn erbyn y cynigion.

1.3 Am nifer o resymau mae'r Comisiwn wedi penderfynu cyhoeddi argymhellion dros dro ar gyfer Cymru gyfan mewn un ddogfen. Er mai'r wyth sir gadwedig yng Nghymru yw ardaloedd yr arolwg ar gyfer etholaethau seneddol, mae'r Comisiwn wedi ystyried y posibilrwydd y gellid ystyried dwy sir gadwedig neu fwy gyda'i gilydd ac mewn un achos (Gwent a Morgannwg Ganol) penderfynwyd gwneud hynny. Gallai fod yn ddefnyddiol beth bynnag, wrth asesu'r argymhellion ar gyfer sir gadwedig unigol, i weld ymagwedd y Comisiwn mewn perthynas â siroedd cadwedig eraill. Mae barn ehangach hefyd yn ddefnyddiol wrth ystyried y goblygiadau a gaiff y newidiadau a argymhellwyd i'r etholaethau i ranbarthau'r Cynulliad Cenedlaethol.

1.4 Nodir manylion pryd a sut i wneud sylwadau, ynghyd â nodyn cefndir byr, yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

2. CRYNODEB O'R ARGYMHELLION

- Mae nifer arfaethedig yr etholaethau seneddol (ac felly etholaethau'r Cynulliad) yn parhau yn 40.

- Cynigir newidiadau sylweddol i rannau o siroedd cadwedig Clwyd a Gwynedd gan greu etholaethau newydd Conwy, Arfon, a Dwyfor Meirionnydd.

- Cynigir mân newidiadau i'r etholaethau canlynol: Clwyd South, Clwyd West, Vale of Clwyd, Carmarthen East and Dinefwr, Carmarthen West and South Pembrokeshire, Ceredigion, Preseli Pembrokeshire, Blaenau Gwent, Bridgend, Caerphilly, Cynon Valley, Islwyn, Ogmore, Pontypridd, Merthyr Tydfil and Rhymney, Montgomeryshire, Cardiff South and Penarth, Vale of Glamorgan, Gower a Neath.

- Ni chynigir unrhyw newidiadau i'r 17 o etholaethau sy'n weddill.

- Cynigir newidiadau i ranbarthau etholiadol Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad a chynigir mân newid i ranbarthau etholiadol Canol De Cymru a Gorllewin De Cymru, i adlewyrchu'r newidiadau a gynigir i etholaethau seneddol/y Cynulliad ymhob achos.

3. ETHOLAETHAU SENEDDOL

3.1 Ardaloedd yr arolwg yw ardaloedd yr wyth sir gadwedig fel y'i sefydlwyd yn dilyn Gorchymyn Siroedd Cadwedig (Diwygio Ffiniau) (Cymru) 2003. Dangosir yr etholaethau newydd arfaethedig ar fapiau bras ar gyfer pob ardal (Atodiadau 1 i 7) ac maent ar gael ar wefan y Comisiwn yn www.comffin-cymru.gov.uk (nodwch y rhybudd hawlfraint, ym mharagraff 15.12 isod, sy'n ymwneud â'r mapiau). Mae'r llythrennau ar y mapiau yn cyfeirio at yr awdurdodau unedol, ac mae'r rhifau yn cyfeirio at y rhanbarthau etholiadol. Dylid defnyddio'r mapiau ochr yn ochr â'r wybodaeth ystadegol sy'n ymwneud â'r rhanbarthau etholiadol yn y tabl yn Atodiad 8. Mae'r wybodaeth hon yn dangos etholwyr rhanbarthau etholiadol 2003 y mae'n ofynnol i'r Comisiwn weithio arnynt yn ôl y gyfraith.

4. CLWYD

4.1 Roedd gan sir gadwedig Clwyd, a sefydlwyd adeg yr arolwg cyffredinol diwethaf, chwe etholaeth gyda 323,075 o etholwyr yn 2003. Mae nifer etholwyr y chwe sedd bresennol yn amrywio o 49,111 yn etholaeth Dyffryn Clwyd i 60,331 yn etholaeth Alun a Glannau Dyfrdwy. O ganlyniad i'r newidiadau a ddaeth yn sgîl Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Gorchymyn Siroedd Cadwedig (Diwygio Ffiniau)(Cymru) 2003, mae gan ardal sir gadwedig bresennol Clwyd 365,693 o etholwyr. Mae cyfanswm yr etholwyr, o'i rannu â chwota etholiadol 2003 (55,640), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 6.57 sedd. Esbonnir y cwota etholiadol ym mharagraff 15.5 isod.

4.2 Mae cynigion y Comisiwn yn golygu na fydd unrhyw newid i ffiniau tair o'r etholaethau presennol (Alun a Glannau Dyfrdwy, Delyn a Wrecsam) a dim ond mân newidiadau i'r tair etholaeth arall (De Clwyd, Gorllewin Clwyd, a Dyffryn Clwyd). Byddai un etholaeth newydd yn cael ei chreu (Conwy). Disgrifir manylion y cynigion isod.

4.3 Y datblygiad pwysicaf ers yr arolwg cyffredinol diwethaf oedd y newid i'r ffin rhwng siroedd cadwedig Clwyd a Gwynedd. Mae hyn yn golygu bod rhannau o etholaethau presennol Conwy a Meirionnydd Nant Conwy a oedd o fewn sir gadwedig Gwynedd yn flaenorol bellach o fewn sir gadwedig Clwyd. Wrth archwilio goblygiadau'r newid i'r ffin, mae'r Comisiwn wedi edrych ar y posibilrwydd o ystyried Clwyd a Gwynedd gyda'i gilydd, ond daethant i'r casgliad y gellir ymdrin â'r ddwy sir gadwedig yn foddhaol os edrychir arnynt ar wahân ac y byddai hyn yn cydsynio'n well â rheol 4 (gweler paragraff 15.5 isod).

4.4 Mae'r Comisiwn wedi penderfynu y dylid cyfuno'r rhannau o etholaethau presennol Conwy a Meirionnydd Nant Conwy a oedd o fewn Gwynedd yn flaenorol ond sydd bellach o fewn Clwyd yn un etholaeth newydd. Maent wedi penderfynu cadw'r enw Conwy ar gyfer yr etholaeth newydd hon.

4.5 Bu newid hefyd i'r ffin rhwng sir gadwedig Clwyd a sir gadwedig Powys, yn y ffaith bod rhanbarth etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin yn arfer bod o fewn Clwyd ond iddo gael ei drosglwyddo i Bowys gan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Caiff y rhanbarth etholiadol hwnnw ei gynnwys yn etholaeth bresennol De Clwyd. Mae'r Comisiwn am gynnwys etholaeth De Clwyd o fewn sir gadwedig Clwyd ac felly penderfynwyd y dylid symud rhanbarth etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin o etholaeth De Clwyd a'i gynnwys o fewn etholaeth ym Mhowys (gweler paragraff 9.3 isod).

4.6 O ganlyniad i'r arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer prif ardaloedd Cymru a gynhaliwyd gan y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, gwnaed rhai newidiadau i ffiniau rhanbarthau etholiadol. Mae pedwar o'r rhanbarthau etholiadol newydd (rhanbarthau etholiadol Efenechtyd, Llanarmon-yn-Ial/Llandegla, Llandyrnog a Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern yn Sir Ddinbych) yn rhannol mewn un etholaeth ac yn rhannol mewn un arall. Mae'r Comisiwn yn defnyddio rhanbarthau etholiadol fel eu blociau adeiladu lleiaf ar gyfer creu etholaethau ac felly maent wedi adlinio ffiniau'r etholaethau i gyd-fynd â ffiniau'r rhanbarthau etholiadol rhanedig hyn.

4.7 Mewn perthynas â'r pedwar rhanbarth etholiadol rhanedig, mae'r Comisiwn wedi penderfynu adlinio'r ffiniau'r etholaethau fel a ganlyn:

Electoral Division	**2003 Electorate**	**Existing Constituency**	**Proposed Constituency**
Efenechtyd	257	Clwyd South CC	
	974	Clwyd West CC	
	1,231		Clwyd West CC
Llanarmon-yn-Ial / Llandegla	384	Clwyd South CC	
	1,384	Clwyd West CC	
	1,768		Clwyd West CC
Llandyrnog	526	Clwyd West CC	
	1,034	Vale of Clwyd CC	
	1,560		Vale of Clwyd
Llanfair Dyffryn Clwyd / Gwyddelwern	660	Clwyd South CC	
	1,088	Clwyd West CC	
	1,748		Clwyd West CC

Ym mhob achos mae'r Comisiwn wedi selio eu penderfyniad drwy ystyried nifer yr etholwyr ym mhob rhan o'r rhanbarthau etholiadol rhanedig a'r cysylltiadau lleol canfyddedig.

4.8 Mae'r Comisiwn wedi penderfynu peidio ag argymell newidiadau i unrhyw un o'r etholaethau presennol eraill, gan ystyried absenoldeb unrhyw gyfiawnhad sy'n ddigonol i orbwyso anghyfleustra ac amharu ar gysylltiadau lleol pe gwnaed newidiadau.

4.9 Felly mae'r Comisiwn wedi penderfynu dyrannu saith sedd i Glwyd dros dro. Cyfansoddiad y saith etholaeth a argymhellwyd fyddai (dangosir nifer yr etholwyr yn 2003 mewn cromfachau):

ALYN AND DEESIDE COUNTY CONSTITUENCY (60,331) rhanbarthau etholiadol **Sir y Fflint:** Aston, Gogledd-Ddwyrain Broughton, De Broughton, Dwyrain Bistre Bwcle, Gorllewin Bistre Bwcle, Mynydd Bwcle, Pentrobin Bwcle, Caergwrle, Canol Cei Conna, Cei Conna Golftyn, De Cei Conna, Cei Conna Gwepre, Ewlo, Penarlâg, Kinnerton Uchaf, Yr Hob, Llanfynydd, Mancot, Pen-y-ffordd, Queensferry, Saltney Cyffordd yr Wyddgrug, Saltney Stonebridge, Sealand, Dwyrain Shotton, Shotton Uchaf, Gorllewin Shotton, Treuddyn.

CLWYD SOUTH COUNTY CONSTITUENCY (51,201) rhanbarthau etholiadol **Sir Ddinbych:** Corwen, Llandrillo, Llangollen. Rhanbarthau etholiadol **Sir Wrecsam:** Bronington, Brymbo, Bryn Cefn, Cefn, Dyffryn Ceiriog/Ceiriog Valley, Gogledd y Waun, De'r Waun, Coedpoeth, Esclusham, Gwenfro, Johnstown, Llangollen Wledig, Marchwiail, Mwynglawdd, Brychdwn Newydd, Owrtyn, Pant, Pen-y-cae, Pen-y-cae a De Rhiwabon, Plas Madoc, Ponciau, Ruabon.

CLWYD WEST COUNTY CONSTITUENCY (55,381) rhanbarthau etholiadol **Sir Conwy:** Abergele Pensarn, Betws yn Rhos, Colwyn, Eirias, Gele, Glyn, Bae Cinmel, Llanddulas, Llandrillo yn Rhos, Llangernyw, Llansannan, Llysfaen, Mochdre, Pentre Mawr, Rhiw, Tywyn, Uwchaled. Rhanbarthau etholiadol **Sir Ddinbych:** Efenechdyd, Llanarmon-yn-Iâl/Llandegla,

Llanbedr Dyffryn Clwyd/Llangynhafal, Llanfair Dyffryn Clwyd/Gwyddelwern, Llanrhaedr-yng-Nghinmeirch, Ruthun.

CONWY COUNTY CONSTITUENCY (43,976) rhanbarthau etholiadol **Sir Conwy:** Betws-y-Coed, Bryn, Caerhun, Capel Ulo, Conwy, Craig-y-Don, Crwst, Deganwy, Eglwysbach, Gogarth, Gower, Llansanffraid, Marl, Mostyn, Pandy, Pant-yr-afon/Penmaenan, Penrhyn, Pensarn, Trefriw, Tudno, Uwch Conwy.

DELYN COUNTY CONSTITUENCY (54,277) rhanbarthau etholiadol **Sir y Fflint:** Argoed, Dwyrain Bagillt, Gorllewin Bagillt, Brynffordd, Caerwys, Cilcain, Ffynnongroyw, Castell Y Fflint, Coleshill Y Fflint, Oakenholt Y Fflint, Trelawney Y Fflint, Maesglas, Gronant, Gwernaffield, Gwernymynydd, Helygan, Canol Treffynnon, Dwyrain Treffynnon, Gorllewin Treffynnon, Coed-llai, Broncoed Yr Wyddgrug, Dwyrain Yr Wyddgrug, De Yr Wyddgrug, Gorllewin Yr Wyddgrug, Mostyn, New Brighton, Llaneurgain, Pentre Catheral, Trelawnyd a Gwaenysgor, Chwitffordd.

VALE OF CLWYD COUNTY CONSTITUENCY (49,637) rhanbarthau etholiadol **Sir Ddinbych:** Bodelwyddan, Canol Dinbych, Dinbych Isaf, Dinbych Uchaf/Henllan, Diserth, Llandyrnog, Canol Prestatyn, Prestatyn Dwyrain, Prestatyn Allt Melyd, Gogledd Prestatyn, De Orllewin Prestatyn, Rhuddlan, Dwyrain Y Rhyl, De Y Rhyl, De Ddwyrain Y Rhyl, De Orllewin Y Rhyl, Gorllewin Y Rhyl, Dwyrain Llanelwy, Gorllewin Llanelwy, Trefnant, Tremeirchion.

WREXHAM COUNTY CONSTITUENCY (50,890) rhanbarthau etholiadol **Sir Wrecsam:** Acton, Parc Boras, Brynyffynnon, Cartrefle, Erddig, Garden Village, Dwyrain a Gorllewin Gresffordd, Grosvenor, Dwyrain a De Gwersyllt, Gogledd Gwersyllt, Gorllewin Gwersyllt, Hermitage, Holt, Little Acton, Llai, Maesydre, Marford a Hoseley, Offa, Queensway, Rhosnesni, Yr Orsedd, Smithfield, Stansty, Whitegate, Wynnstay.

4.10 Y rhanbarthau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon yw'r rhanbarthau etholiadol newydd a grëwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- The County Borough of Conwy (Electoral Arrangements) Order 1998
- The County of Denbighshire (Electoral Arrangements) Order 1998
- The County of Flintshire (Electoral Arrangements) Order 1998
- The County Borough of Wrexham (Electoral Arrangements) Order 1998

5. DYFED

5.1 Mae gan sir gadwedig Dyfed bum etholaeth gyda 275,808 o etholwyr yn 2003. Mae nifer etholwyr y pum sedd bresennol yn amrywio o 52,849 yn etholaeth Ceredigion i 57,409 yn etholaeth Llanelli. Mae cyfanswm yr etholwyr, o'i rannu â chwota etholiadol 2003 (55,640) yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 4.96 sedd. Esbonnir y cwota etholiadol ym mharagraff 15.5 isod.

5.2 Mae cynigion y Comisiwn yn golygu na fydd unrhyw newid i ffiniau etholaeth Llanelli a dim ond mân newidiadau i'r pedair etholaeth arall. Disgrifir manylion y cynigion isod.

5.3 O ganlyniad i The County of Carmarthenshire (Electoral Arrangements) Order 1998, Gorchymyn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro (Clynderwen, Cilymaenllwyd a Henllanfallteg) 2002 a Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002, gwnaed rhai newidiadau i ffiniau rhanbarthau etholiadol. Mae tri rhanbarth etholiadol (rhanbarth etholiadol Cynwyl Elfed yn Sir Gaerfyrddin a rhanbarthau etholiadol Maenclochog a Llandudoch yn Sir Benfro) yn rhannol o fewn un etholaeth ac yn rhannol o fewn un arall. Mae'r Comisiwn yn defnyddio rhanbarthau etholiadol fel eu blociau adeiladu lleiaf ar gyfer creu etholaethau ac felly maent wedi adlinio ffiniau'r etholaethau i gyd-fynd â ffiniau'r rhanbarthau etholiadol rhanedig.

5.4 Mewn perthynas â'r pedwar rhanbarth etholiadol rhanedig, mae'r Comisiwn wedi penderfynu adlinio ffiniau'r etholaethau fel a ganlyn:

Electoral Division	**2003 Electorate**	**Existing Constituency**	**Proposed Constituency**
Cynwyl Elfed	1,345	Carmarthen East and Dinefwr	
	1,026	Carmarthen West and South Pembrokeshire	
	2,371		Carmarthen West and South Pembrokeshire
Maenclochog	1,635	Preseli Pembrokeshire	
	593	Carmarthen West and South Pembrokeshire	
	2,228		Preseli Pembrokeshire
Llandudoch	1,414	Preseli Pembrokeshire	
	345	Ceredigion	
	1,759		Preseli Pembrokeshire

Ym mhob achos mae'r Comisiwn wedi ystyried nifer yr etholwyr ym mhob rhan o'r rhanbarthau etholiadol rhanedig a'r cysylltiadau lleol canfyddedig. Mewn perthynas â Maenclochog a Llandudoch mae'r Comisiwn yn ystyried y ffaith bod y cydbwysedd o ran nifer yr etholwyr yn gryf o blaid cynnwys y rhanbarth etholiadol yn etholaeth Preseli Sir Benfro. Mewn perthynas â Chynwyl Elfed, lle nad yw'r cydbwysedd mor glir, mae'r Comisiwn yn ystyried bod y cysylltiadau â thref Caerfyrddin yn ei gwneud yn briodol i gynnwys y rhanbarth etholiadol yn etholaeth Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro.

5.5 Mae'r Comisiwn wedi penderfynu peidio ag argymell newidiadau i etholaeth bresennol Llanelli, gan ystyried absenoldeb unrhyw gyfiawnhad sy'n ddigonol i orbwyso anghyfleustra ac amharu ar gysylltiadau lleol pe gwnaed newidiadau.

5.6 Felly mae'r Comisiwn wedi penderfynu dyrannu pum sedd i Ddyfed dros dro. Cyfansoddiad y pum etholaeth a argymhellwyd fyddai (dangosir nifer yr etholwyr yn 2003 mewn cromfachau):

CARMARTHEN EAST AND DINEFWR COUNTY CONSTITUENCY (52,741) rhanbarthau etholiadol **Sir Gaerfyrddin:** Abergwili, Rhydamman, Betws, Cenarth, Cilycwm, Cynwyl Gaeo, Garnant, Glanamman, Gorslas, Llanddarog, Llandeilo, Llanymddyfri, Llandybie, Llanegwad, Llanfihangel Aberbythych, Llanfihangel-ar-Arth, Llangadog, Llangeler, Llangynnwr, Llangyndeyrn, Llanybydder, Manordeilo a Salem, Penygroes, Pontamman, Cwarter Bach, Llanismel, Saron.

CARMARTHENSHIRE WEST AND SOUTH PEMBROKESHIRE COUNTY CONSTITUENCY (57,143) rhanbarthau etholiadol **Sir Gaerfyrddin:** Tref Caerfyrddin Gogledd, Tref Caerfyrddin De, Tref Caerfyrddin Gorllewin, Cynwyl Elfed, Maestref Talacharn, Llanboidy, Llansteffan, Sanclêr, Trelech, Hendy-gwyn-ar-daf. Rhanbarthau etholiadol **Sir Benfro:** Amroth, Caeriw, Dwyrain Williamston, Hundleton, Cilgeti/Begeli, Llanbedr Felffre, Llandyfái, Maenorbyr, Martletwy, Arberth, Arberth Wledig, Doc Penfro: Canol, Doc Penfro: Llanion, Doc Penfro: Market, Doc Penfro: Pennar, Penfro: Monkton, Penfro: Gogledd St.Mary, Penfro: De St.Mary, Penfro: St.Michael, Penalum, Saundersfoot, Dinbych-y-Pysgod: Gogledd, Dinbych-y-Pysgod: De.

CEREDIGION COUNTY CONSTITUENCY (52,514) rhanbarthau etholiadol **Sir Ceredigion:** Aberaeron, Aberporth, Aberteifi /Cardigan-Mwldan, Aberteifi/ Cardigan-Rhyd-y-Fuwch, Aberteifi/ Cardigan-Teifi, Aberystwyth Bronglais, Aberystwyth Canol/Central, Aberystwyth Gogledd/North, Aberystwyth Penparcau, Aberystwyth Rheidol, Beulah, Borth, Capel Dewi, Ceulan-y-maesmawr, Ciliau Aeron, Faenor, Llanbedr Pont Stephen, Llanarth, Llanbadarn Fawr – Padarn, Llanbadarn Fawr – Sulien, Llandyfriog, Llandysilio-gogo, Tref Llandysul, Llanfarian, Llanfihangel Ystrad, Llangeitho, Llangybi, Llanrhystyd, Llansantffraid, Llanwenog, Lledrod, Melindwr, Y Ceinewydd, Penbryn, Penparc, Tirymynach, Trefeurig, Tregaron, Troedyraur, Ystwyth.

LLANELLI COUNTY CONSTITUENCY (57,409) rhanbarthau etholiadol **Sir Gaerfyrddin:** Bigyn, Porth Tywyn, Y Bynie, Dafen, Elli, Felinfoel, Glanymor, Glyn, Yr Hendy, Hengoed, Cydwell, Llangennech, Llannon, Lliedi, Llwynhendy, Pembre, Pontyberem, Swiss Valley, Trimsaran, Tycroes, Tyisha.

PRESELI PEMBROKESHIRE COUNTY CONSTITUENCY (56,001) rhanbarthau etholiadol **Sir Benfro:** Burton, Camrose, Cilgerran, Clydau, Crymych, Dinas, Gogledd Ddwyrain Abergwaun, Gogledd Orllewin Abergwaun, Wdig, Hwlffordd: Y Castell, Hwlffordd: Garth, Hwlffordd: Portfield, Hwlffordd: Prendergast, Hwlffordd: Priordy, Johnston, Treletert, Llangwm, Llanrhian, Maenclochog, Pont Fadlen, Milffwrd: Canol, Milffwrd: Dwyrain, Milffwrd: Hakin, Milffwrd: Hubberston, Milffwrd: Gogledd, Milffwrd: Gorllewin, Trefdraeth, Neyland: Dwyrain, Neyland: Gorllewin, Rudbaxton, Tyddewi, Llandudoch, St.Ishmael's, Scleddau, Solfach, The Havens, Cae-wis.

5.7 Y rhanbarthau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon yw'r rhanbarthau etholiadol newydd a grëwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- The County of Carmarthenshire (Electoral Arrangements) Order 1998
- The County of Pembrokeshire (Electoral Arrangements) Order 1998
- Gorchymyn Sir Ceredigion (Newidiadau Etholiadol) 2002
- Gorchymyn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro (Clynderwen, Cilymaenllwyd a Henllanfallteg) 2002
- Gorchymyn Ceredigion a Sir Benfro (Llandudoch) 2002

6. GWENT/MORGANNWG GANOL

6.1 Roedd gan sir gadwedig Gwent, a sefydlwyd adeg yr arolwg cyffredinol diwethaf, chwe etholaeth gyda 345,818 o etholwyr yn 2003. O ganlyniad i'r newidiadau a ddaeth yn sgîl Gorchymyn Siroedd Cadwedig (Diwygio Ffiniau)(Cymru) 2003, mae gan ardal sir gadwedig bresennol Gwent 426,826 o etholwyr. Mae cyfanswm yr etholwyr, o'i rannu â chwota etholiadol 2003 (55,640), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 7.67 sedd. Esbonnir y cwota etholiadol ym mharagraff 15.5 isod.

6.2 Roedd gan sir gadwedig Morgannwg Ganol, a sefydlwyd adeg yr arolwg cyffredinol diwethaf, saith etholaeth gyda 395,606 o etholwyr yn 2003. O ganlyniad i'r newidiadau a ddaeth yn sgîl Gorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw (Newid Ffiniau)(Cymru) 2003, mae gan ardal sir gadwedig bresennol Morgannwg Ganol 306,817 o etholwyr. Mae'r nifer hon o etholwyr, o'i rhannu â chwota etholiadol 2003 (55,640), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 5.51 sedd.

6.3 Gyda'i gilydd mae gan siroedd cadwedig Gwent a Morgannwg Ganol 733,643 o etholwyr rhyngddynt, a phan rennir hyn gyda chwota etholiadol 2003 (55,640), rhoddir hawl ddamcaniaethol i 13.19 sedd.

6.4 Y datblygiad pwysicaf ers yr arolwg cyffredinol diwethaf oedd y newid i'r ffin rhwng y ddwy sir gadwedig. Mae hyn yn golygu bod etholaeth bresennol Merthyr Tudful a Rhymni bellach wedi'i rhannu rhwng y siroedd cadwedig. Mae'r Comisiwn wedi ystyried goblygiadau hyn yn ofalus, gan archwilio'r sefyllfa os caiff y ddwy sir gadwedig eu hystyried ar wahân a'r sefyllfa os cânt eu hystyried gyda'i gilydd.

6.5 Wrth wneud hyn, mae'r Comisiwn wedi ystyried rheol 4(1)(a)(i) y Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi (gweler paragraffau 15.4 - 15.5 isod), sy'n nodi cyn belled ag y bo'n ymarferol o ystyried rheolau 1 i 3: "no [preserved] county or any part of a [preserved] county shall be included in a constituency which includes the whole or part of any other [preserved] county …". Maent hefyd wedi ystyried, fodd bynnag, bod rheol 5 yn caniatáu ymadawiad o gymhwyso rheol 4 yn gaeth os bydd yn ymddangos iddynt hwy bod ymadawiad "is desirable in order to avoid an excessive disparity between the electorate of any constituency and the electoral quota, or between the electorate of any constituency and that of neighbouring constituencies …". At hynny, mae rheol 7 yn cyflwyno ffin werthfawrogi ychwanegol ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ystyried, cyn belled ag y gallant wneud hynny yn rhesymol, "the inconveniences attendant on alterations of constituencies other than alterations made for the purposes of rule 4, and ….. any local ties which would be broken by such alterations".

6.6 Mae'r Comisiwn wedi ystyried nifer o ymagweddau posibl tuag at ddyrannu seddi ar sail ystyried y ddwy sir gadwedig ar wahân, ond daethant i'r casgliad nad yw yr un ohonynt yn foddhaol am un neu fwy o'r rhesymau canlynol: byddent yn creu gwahaniaethau helaeth rhwng nifer yr etholwyr mewn etholaethau a'r cwota etholiadol; byddent yn creu gwahaniaethau helaeth rhwng nifer etholwyr etholaethau cyfagos; neu byddent yn arwain at newidiadau sylweddol i etholaethau presennol, gan greu anghyfleustra yn eu sgîl a thorri cysylltiadau lleol, mewn amgylchiadau lle gellir peidio ag ystyried newidiadau o'r fath at ddibenion rheol 4. Yn ogystal, byddai'r atebion sydd lleiaf anfoddhaol fel arall yn cynhyrchu cyfanswm dyraniad seddi ar gyfer y ddwy sedd

gadwedig a oedd naill ai'n fwy neu'n llai na'r cyd-ddyraniad presennol o 13 o seddi ac a fyddai'n golygu ymadawiad sylweddol o'r gyd-hawl ddamcaniaethol o 13.19 o seddi.

6.7 I'r gwrthwyneb, mae'r Comisiwn o'r farn y byddai ystyried y ddwy sir gadwedig gyda'i gilydd yn lleihau'r problemau a nodwyd ac y byddai'n arwain at ddyrannu 13 sedd ar y cyd, yn unol â'r dyraniad presennol a'r gyd-hawl ddamcaniaethol. Yn yr holl amgylchiadau maent wedi penderfynu ei bod yn briodol ystyried y ddwy sir gyda'i gilydd er mwyn llunio eu hargymhellion dros dro ar gyfer ffiniau etholaethau.

6.8 O fewn y ddwy sir gadwedig a ystyriwyd gyda'i gilydd, mae'r Comisiwn wedi penderfynu cadw at batrwm sylfaenol yr etholaethau presennol. Cynigir cadw ffiniau pum etholaeth heb eu newid (Merthyr Tudful, Dwyrain Casnewydd, Gorllewin Casnewydd, Rhondda a Thor-faen). Ar gyfer yr wyth etholaeth sy'n weddill mae'r Comisiwn yn cynnig newidiadau manwl penodol er mwyn ystyried newidiadau i ffiniau rhanbarthau etholiadol ers yr arolwg cyffredinol diwethaf neu i leihau'r gwahaniaeth nifer yr etholwyr mewn etholaethau penodol. Disgrifir y newidiadau arfaethedig hyn isod.

6.9 O ganlyniad i Orchymyn Blaenau Gwent a Chaerffili (Tredegar a Rhymni) 2002 mae rhanbarth etholiadol Sirhowy yn pontio'r ffin rhwng etholaethau Blaenau Gwent a Merthyr Tudful a Rhymni. Gan fod y rhan honno o ranbarth etholiadol Sirhowy sydd o fewn etholaeth Merthyr Tudful a Rhymni yn gymharol fach ac nad oes unrhyw etholwyr yno, mae'r Comisiwn yn bwriadu cynnwys rhanbarth etholiadol Sirhowy yn ei gyfanrwydd o fewn etholaeth Blaenau Gwent.

6.10 O ganlyniad i'r newidiadau i'r awdurdod lleol a ffiniau'r siroedd cadwedig a ddaeth yn sgîl Local Government (Wales) Act 1994 mae etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr yn croesi'r ffin rhwng siroedd cadwedig Morgannwg Ganol a De Morgannwg yn ardal Cymunedau Saint-y-brid, y Wig ac Ewenni. Er mwyn sicrhau bod ffiniau'r etholaethau'n cyd-fynd â ffiniau llywodraeth leol yn yr ardal hon, mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid cynnwys rhanbarth etholiadol Saint-y-brid a rhanbarth etholiadol Llandŵ/Ewenni yn ei gyfanrwydd o fewn etholaeth Bro Morgannwg.

6.11 O ganlyniad i Bridgend and The Vale of Glamorgan (Areas) Order 1996, rhennir rhanbarth etholiadol Llangrallo Isaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr rhwng etholaethau Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. Gan fod y rhan honno o ranbarth etholiadol Llangrallo Isaf sydd o fewn etholaeth Bro Morgannwg hefyd yn gymharol fach ac nad oes unrhyw etholwyr yno, mae'r Comisiwn yn bwriadu cynnwys rhanbarth etholiadol Llangrallo Isaf yn ei gyfanrwydd o fewn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

6.12 O ganlyniad i City and County of Cardiff (Electoral Arrangements) Order 1998, rhennir rhanbarth etholiadol Creigiau/Sain Ffagan yng Nghaerdydd rhwng etholaethau Gorllewin Caerdydd a Phontypridd. Yn ogystal, o ganlyniad i Local Government (Wales) Act 1994, caiff rhanbarth etholiadol Pentyrch yn etholaeth bresennol Pontypridd ei gynnwys o fewn sir gadwedig De Morgannwg. Felly er mwyn sicrhau na rennir rhanbarthau etholiadol rhwng etholaethau, mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid cynnwys rhanbarth etholiadol Pentyrch a rhanbarth etholiadol Creigiau/Sain Ffagan yn ei gyfanrwydd o fewn etholaeth Gorllewin Caerdydd yn Ne Morgannwg.

6.13 Arweiniodd Gorchymyn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg (Llanhari, Pont-y-clun, Penllyn, Llanddunwyd a Phendeulwyn) 2002 at rannu rhanbarthau etholiadol y Bont-faen rhwng etholaethau Ogwr a Bro Morgannwg (mân newid yn cynnwys dau eiddo). O

ganlyniad i Orchymyn Siroedd Cadwedig 2003 mae hyn hefyd yn golygu rhaniad ar draws y ffin rhwng siroedd cadwedig Morgannwg Ganol a De Morgannwg. Felly er mwyn sicrhau na rennir rhanbarthau etholiadol rhwng etholaethau, mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid cynnwys rhanbarth etholiadol y Bont-faen yn ei gyfanrwydd o fewn etholaeth Bro Morgannwg yn sir gadwedig De Morgannwg.

6.14 Er mwyn lleihau'r gwahaniaeth rhwng nifer yr etholaeth mewn etholaethau penodol, cynigir mân newidiadau i etholaethau Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Cwm Cynon, Islwyn, Ogwr a Phontypridd.

6.15 Cynigir y dylid cynnwys rhanbarthau etholiadol Abercynffig a Chefn Cribwr sydd o fewn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr ar hyn o bryd, o fewn etholaeth Ogwr.

6.16 Cynigir y dylid cynnwys rhanbarthau etholiadol Aberbargod, Bargod a'r Gilfach sydd o fewn etholaeth Caerffili ar hyn o bryd, o fewn etholaeth Islwyn.

6.17 Cynigir y dylid cynnwys rhanbarthau etholiadol Cilfynydd a Glyncoch sydd o fewn etholaeth Pontypridd ar hyn o bryd, o fewn etholaeth Cwm Cynon.

6.18 Yn unol â hyn mae'r Comisiwn wedi penderfynu dyrannu tair sedd ar ddeg i Went/Morgannwg Ganol dros dro. Cyfansoddiad y tair etholaeth ar ddeg a argymhellwyd fyddai (dangosir etholaethau 2003 mewn cromfachau):

BLAENAU GWENT COUNTY CONSTITUENCY (53,120) rhanbarthau etholiadol **Sir Blaenau Gwent:** Abertyleri, Badminton, Beaufort, Y Blaenau, Brynmawr, Cwm, Cwmtyleri, Gogledd Glynebwy, De Glynebwy, Georgetown, Llanhilleth, Nantyglo, Rassau, Sirhowy, Six Bells, Canol a Gorllewin Tredegar.

BRIDGEND COUNTY CONSTITUENCY (57,046) rhanbarthau etholiadol **Sir Pen-y-bont ar Ogwr:** Bracla, Bryntirion, Laleston a Merthyr Mawr, Cefn Glas, Coety, Corneli, Llangrallo Isaf, Litchard, Llangewydd a Brynhyfryd, Morfa, Y Castellnewydd, Newton, Notais, Yr Hengastell, Pendre, Pen-y-fai, Canol Dwyrain Porthcawl, Canol Gorllewin Porthcawl, Y Pîl, Rest Bay.

CAERPHILLY COUNTY CONSTITUENCY (59,576) rhanbarthau etholiadol **Sir Caerffili:** Aber Valley, Bedwas, Threthomas a Machen, Hengoed, Llanbradach, Maesycwmmer, Morgan Jones, Nelson, Penyrheol, St.Cattwg, St.James, St.Martins, Ystrad Mynach.

CYNON VALLEY COUNTY CONSTITUENCY (48,272) rhanbarthau etholiadol **Sir Rhondda Cynon Taf:** Gogledd Aberaman, De Aberaman, Abercynon, Dwyrain Aberdâr, Gorllewin Aberdâr/Llwydcoed, Cilfynydd, Cwmbach, Glyncoch, Hirwaun, Dwyrain Aberpennar, Gorllewin Aberpennar, Penrhiw-ceiber, Pen-y-waun, Y Rhigos, Ynysybwl.

ISLWYN COUNTY CONSTITUENCY (60,769) rhanbarthau etholiadol **Sir Caerffili:** Aberbargoed, Abercarn, Argoed, Bargoed, Y Coed Duon, Cefn Fforest, Crosskeys, Crymlyn, Gilfach, Trecelyn, Pengam, Penmaen, Pontllanfraith, Dwyrain Rhisga, Gorllewin Rhisga, Ynysddu.

MERTHYR TYDFIL AND RHYMNEY COUNTY CONSTITUENCY (55,476) rhanbarthau etholiadol **Sir Merthyr Tudful:** Bedlinog, Cyfarthfa, Dowlais, Y Gurnos, Bro Merthyr, Y

Parc, Penydarren, Plymouth, Y Dref, Treharris, Y Faenor. Rhanbarthau etholiadol **Sir Caerffili:** Cwm Darren, Moriah, Tredegar Newydd, Pontlotyn, Twyn Carno.

MONMOUTH COUNTY CONSTITUENCY (62,423) rhanbarthau etholiadol **Sir Fynwy:** Caerwent, Cantref, Castle, Croesonen, Crucornau, Devauden, Dixton gydag Osbaston, Drybridge, Goetre Fawr, Grofield, Lansdown, Larkfield, Llanbadog, Llanelly Hill, Llan-ffwyst Fawr, Llangybi Fawr, Llanofer Fawr, Llandeilo Gresynni, Llanwenarth, Y Maerdy, Llanfihangel Troddi, Overmonnow, Porth Sgiwed, Priory, Rhaglan, St.Arvans, St.Christopher's, St.Kingsmark, St.Mary's, Drenewydd Gelli-farch, Thornwell, Trellech United, Brynbuga, Wyesham. Rhanbarthau etholiadol **Sir Tor-faen:** Gogledd Croesyceiliog, De Croesyceiliog, Gogledd Llanyrafon, De Llanyrafon.

NEWPORT EAST COUNTY CONSTITUENCY (56,355) rhanbarthau etholiadol **Sir Casnewydd:** Alway, Beechwood, Langstone, Liswerry, Llanwern, Ringland, St.Julians, Victoria. Rhanbarthau etholiadol **Sir Fynwy:** Caldicot Castle, Llanddewi, Green Lane, Mill, Rogiet, Hafren, The Elms, West End.

NEWPORT WEST COUNTY CONSTITUENCY (60,882) rhanbarthau etholiadol **Sir Casnewydd:** Allt-yr-yn, Betws, Caerllion, Y Gaer, Graig, Malpas, Maerun, Pillgwenlly, Ty-Du, Shaftesbury, Stow Hill, Parc Tredegar.

OGMORE COUNTY CONSTITUENCY (53,842) rhanbarthau etholiadol **Sir Pen-y-bont ar Ogwr:** Abercynffig, Betws, Melin Ifan Ddu, Blaengarw, Bryncethin, Bryncoch, Caerau, Cefn Cribwr, Felindre, Hendre, Llangeinor, Llangynwyd, Dwyrain Maesteg, Gorllewin Maesteg, Nant-y-moel, Bro Ogwr, Penprysg, Pontycymer, Sarn, Ynysawdre. Rhanbarthau etholiadol **Sir Rhondda Cynon Taf:** Brynna, Gilfach Goch, Llanharan, Llanhari.

PONTYPRIDD COUNTY CONSTITUENCY (54,122) rhanbarthau etholiadol **Sir Rhondda Cynon Taf:** Beddau, Pentre'r Eglwys, Graig, Y Ddraenen Wen, Tref Llantrisant, Llantwit Fardre, Pont-y-clun, Tref Pontypridd, Rhondda, Canol Rhydfelen/Ilan, Ffynnon Taf, Tonysguboriau, Ton-teg, Dwyrain Tonyrefail, Gorllewin Tonyrefail, Trallwng, Trefforest, Tyn-y-nant.

RHONDDA COUNTY CONSTITUENCY (50,389) rhanbarthau etholiadol **Sir Rhondda Cynon Taf:** Cwm Clydach, Cymer, Glyn Rhedyn, Llwyn-y-pia, Y Maerdy, Pentre, Pen-y-graig, Y Porth, Tonypandy, Trealaw, Treherbert, Treorci, Tylorstown, Ynyshir, Ystrad.

TORFAEN COUNTY CONSTITUENCY (61,371) rhanbarthau etholiadol **Sir Tor-faen:** Abersychan, Blaenafon, Brynwern, Coed Eva, Cwmyniscoy, Fairwater, Greenmeadow, Llantarnam, New Inn, Panteg, Pontnewydd, Pontnewynydd, Pont-y-pwl, St.Cadocs a Phenygarn, St.Dials, Snatchwood, Trefethin, Two Locks, Cwmbran Uchaf, Wainfelin.

6.19 Y rhanbarthau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon yw'r rhanbarthau etholiadol a grëwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- The County Borough of Blaenau Gwent Electoral Arrangements Order 1994
- The County Borough of Bridgend (Electoral Arrangements) Order 1998
- The County Borough of Caerphilly (Electoral Arrangements) Order 1998
- The County Borough of Merthyr Tydfil Electoral Arrangements Order 1994
- Gorchymyn Sir Fynwy (Newidiadau Etholiadol) 2002

- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Casnewydd (Newidiadau Etholiadol) 2002
- The County Borough of Rhondda Cynon Taff (Electoral Arrangements) Order 1998
- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Tor-faen (Newidiadau Etholiadol) 2002

ac a ddiwygiwyd gan y Gorchymyn canlynol:

- Gorchymyn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg (Llanharri, Pont-y-clun, Penllyn, Llanddunwyd a Phendeulwyn) 2002.

7. GWYNEDD

7.1 Roedd gan sir gadwedig Gwynedd, a sefydlwyd adeg yr arolwg cyffredinol diwethaf, bedair etholaeth gyda 185,628 o etholwyr yn 2003. Mae nifer etholwyr y pedair sedd bresennol yn amrywio o 33,723 yn etholaeth Meirionnydd Nant Conwy i 55,009 yn etholaeth Conwy. O ganlyniad i'r newidiadau a ddaeth yn sgîl Gorchymyn Siroedd Wedi'u Cadw (Newid Ffiniau) (Cymru) 2003, mae gan ardal sir gadwedig bresennol Gwynedd 141,652 o etholwyr. Mae cyfanswm yr etholwyr, o'i rannu â chwota etholiadol 2003 (55,640), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 2.55 sedd. Esbonnir y cwota etholiadol ym mharagraff 15.5 isod.

7.2 Mae cynigion y Comisiwn yn golygu na fydd unrhyw newid i etholaeth bresennol Ynys Môn. Fodd bynnag, mae'r bwriad i rannu gweddill y sir yn ddwy etholaeth yn golygu newid mawr i'r trefniadau presennol. Disgrifir manylion y cynigion isod.

7.3 Fel y nodwyd uchod yng nghyd-destun Clwyd, y datblygiad pwysicaf ers yr arolwg cyffredinol diwethaf oedd y newid i'r ffin rhwng siroedd cadwedig Clwyd a Gwynedd. Mae hyn yn golygu bod ardaloedd o etholaethau presennol Conwy a Meirionydd Nant Conwy a oedd o fewn sir gadwedig Gwynedd yn flaenorol bellach o fewn sir gadwedig Clwyd. Wrth archwilio goblygiadau newid y ffin, mae'r Comisiwn wedi edrych ar y posibilrwydd o ystyried Clwyd a Gwynedd gyda'i gilydd, ond daethant i'r casgliad y gellid ymdrin â'r ddwy ffin gadwedig yn foddhaol drwy edrych arnynt ar wahân ac y byddai hyn yn cydsynio'n well â rheol 4 (gweler paragraff 15.5 isod).

7.4 Yn yr holl amgylchiadau, a chan ystyried yn benodol y gostyngiad sylweddol yng nghyfanswm yr etholwyr sy'n deillio o'r newid i ffin y sir gadwedig, mae'r Comisiwn wedi penderfynu y dylid lleihau nifer yr etholaethau yng Ngwynedd o bedair i dair.

7.5 Noda'r Comisiwn bod etholaeth bresennol Ynys Môn yn cydffinio â Sir Ynys Môn a'r ynys ei hun ac er bod nifer yr etholwyr 5,809 (10.4%) yn is na'r cwota etholiadol mae'n 2,614 (5.5%) yn uwch na maint etholaeth yng Ngwynedd ar gyfartaledd pe câi tair sedd eu dyrannu i'r sir gadwedig. Mae'r Comisiwn felly wedi penderfynu cadw etholaeth bresennol Ynys Môn.

7.6 Mae'r Comisiwn wedi penderfynu creu'r ddwy sedd sy'n weddill drwy ddefnyddio ardaloedd Pwyllgor Ardal Cyngor Sir Gwynedd sef Arfon, Dwyfor a Meirionnydd (yr hen ardaloedd Cyngor Dosbarth). Byddai un etholaeth, i'w galw'n etholaeth Arfon, yn cynnwys rhanbarthau etholiadol sy'n llunio ardal Pwyllgor Ardal Arfon. Byddai'r etholaeth arall, i'w galw'n etholaeth Dwyfor a Meirionnydd, yn cynnwys y rhanbarthau etholiadol sy'n llunio ardaloedd Pwyllgor Ardal Dwyfor a Phwyllgor Ardal Meirionnydd. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod y cynnig hwn yn cynnwys newid sylweddol i'r trefniadau presennol a gallai wanhau'r cysylltiadau hanesyddol rhwng tref Caernarfon a hen Sir Gaernarfon. Fodd bynnag, caiff yr anfanteision hyn eu lliniaru gan y ffaith bod yr etholaethau arfaethedig yn seiliedig ar ardaloedd a ddefnyddir ar hyn o bryd at ddibenion gweinyddu llywodraeth leol, ac mae'r Comisiwn o'r farn mai'r cynnig hwn yw'r ateb gorau ar gyfer sir gadwedig Gwynedd yn gyffredinol.

7.7 Yn unol â hyn mae'r Comisiwn wedi penderfynu dyrannu tair sedd i Wynedd dros dro. Cyfansoddiad y tair etholaeth arfaethedig fyddai (dangosir etholaethau 2003 mewn cromfachau):

ARFON COUNTY CONSTITUENCY (42,998) rhanbarthau etholiadol **Sir Gwynedd:** Arllechwedd, Bethel, Bontnewydd, Cadnant, Cwm-y-Glo, Deiniol, Deiniolen, Dewi, Garth, Gerlan, Glyder, Groeslon, Hendre, Hirael, Llanberis, Llanllyfni, Llanrug, Llanwnda, Marchog, Menai (Bangor), Menai (Caernarfon), Ogwen, Peblig (Caernarfon), Penisarwaun, Pentir, Penygroes, Seiont, Talysarn, Tregarth a Mynydd Llandygái, Waunfawr, Y Felinheli.

DWYFOR MEIRIONNYDD COUNTY CONSTITUENCY (48,823) rhanbarthau etholiadol **Sir Gwynedd:** Aberdaron, Aberdyfi, Abererch, Abermaw, Abersoch, Bala, Botwnnog, Bowydd a Rhiw, Brithdir a Llanfachreth/Ganllwyd/Llanelltyd, Bryn-crug/Llanfihangel, Clynnog, Corris/Mawddwy, Criccieth, Diffwys a Maenofferen, Dolbenmaen, Gogledd Dolgellau, De Dolgellau, Dyffryn Ardudwy, Efail-newydd/Buan, Harlech, Llanaelhaearn, Llanbedr, Llanbedrog, Llandderfel, Llanengan, Llangelynin, Llanuwchllyn, Llanystumdwy, Morfa Nefyn, Nefyn, Penrhyndeudraeth, Dwyrain Porthmadog, Gorllewin Porthmadog, Porthmadog-Tremadog, Gogledd Pwllheli, De Pwllheli, Teigl, Trawsfynydd, Tudweiliog, Tywyn.

YNYS MÔN COUNTY CONSTITUENCY (49,831) rhanbarthau etholiadol **Sir Ynys Môn:** Aberffraw, Porth Amlwch, Amlwch Wledig, Biwmares, Bodffordd, Bodorgan, Braint, Bryngwran, Brynteg, Cadnant, Cefni, Cwm Cadnant, Cyngar, Gwyngyll, Tref Caergybi, Kingsland, Llanbadrig, Llanbedrgoch, Llanddyfnan, Llaneilian, Llanfaethlu, Llanfair-yn-Neubwll, Llanfihangel Ysgeifiog, Llangoed, Llanidan, Llannerch-y-medd, London Road, Maeshyfryd, Mechell, Moelfre, Morawelon, Parc a'r Mynydd, Pentraeth, Porthyfelin, Rhosneigr, Rhosyr, Trearddur, Tudur, Tysilio, Y Fali.

7.8 Y rhanbarthau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon yw'r rhanbarthau etholiadol a grëwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- The County of Anglesey Electoral Arrangements Order 1994
- Gorchymyn Sir Gwynedd (Newidiadau Etholiadol) 2002

8. MORGANNWG GANOL

Gweler adran 6 uchod ar gyfer y cynigion mewn perthynas â sir gadwedig Morgannwg Ganol.

9. POWYS

9.1 Roedd gan sir gadwedig Powys, a sefydlwyd adeg yr arolwg cyffredinol diwethaf, ddwy etholaeth gyda 98,794 o etholwyr yn 2003. Mae nifer etholwyr y ddwy sedd bresennol yn 45,297 yn etholaeth Sir Drefaldwyn a 53,497 yn etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed. O ganlyniad i'r newid a ddaeth yn sgîl Local Government (Wales) Act 1994, mae gan ardal sir gadwedig bresennol Powys 100,152 o etholwyr. Mae cyfanswm yr etholwyr, o'i rannu â chwota etholiadol 2003 (55,640), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 1.8 sedd. Esbonnir y cwota etholiadol ym mharagraff 15.5 isod.

9.2 Mae cynigion y Comisiwn yn golygu na fydd unrhyw newid i ffiniau etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed, a dim ond mân newidiadau i etholaeth Sir Drefaldwyn. Disgrifir manylion y cynigion isod.

9.3 Fel y nodwyd yng nghyd-destun Clwyd, bu newid i'r ffin rhwng sir gadwedig Clwyd a sir gadwedig Powys, yn y ffaith bod rhanbarth etholiadol Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin yn arfer bod o fewn Clwyd ond ei fod wedi'i drosglwyddo i Bowys gan Local Government (Wales) Act 1994. Caiff y rhanbarth etholiadol hwnnw ei gynnwys yn etholaeth bresennol De Clwyd. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu y dylid ei dynnu o etholaeth De Clwyd a'i gynnwys o fewn etholaeth Sir Drefaldwyn. Byddai hyn yn cyflwyno'r fantais ychwanegol o gynyddu nifer etholwyr etholaeth Sir Drefaldwyn i 46,655 a lleihau'r gwahaniaeth rhwng nifer yr etholwyr yn yr etholaeth honno ac etholaeth Brycheiniog a Sir Faesyfed.

9.4 Mae'r Comisiwn wedi penderfynu peidio ag argymell unrhyw newidiadau eraill i'r etholaethau presennol, gan ystyried absenoldeb unrhyw gyfiawnhad sy'n ddigonol i orbwyso'r anghyfleustra a'r amharu ar gysylltiadau lleol pe gwnaed newidiadau. Maent hefyd yn nodi y byddai etholaeth arfaethedig Sir Drefaldwyn yn cydffinio â'r ardal a gynrychiolir gan Bwyllgor Sirol Sir Drefaldwyn Cyngor Sir Powys ac y byddai etholaeth arfaethedig Brycheiniog a Sir Faesyfed yn cydffinio ag ardaloedd Pwyllgor Sirol Sir Frycheiniog a Phwyllgor Sirol Sir Faesyfed.

9.5 Felly mae'r Comisiwn wedi penderfynu dyrannu dwy sedd i Bowys dros dro. Cyfansoddiad y ddwy etholaeth a argymhellwyd fyddai (dangosir etholaethau 2003 mewn cromfachau):

BRECON AND RADNORSHIRE COUNTY CONSTITUENCY (53,497) rhanbarthau etholiadol **Sir Powys:** Aber-craf, Beguildy, Bronllys, Llanfair-ym-Muallt, Bwlch, Crycywel, Cwm-twrch, Disserth a Threcoed, Felin-fâch, Clas-ar-Wy, Gwernyfed, Y Geli, Trefyclo, Llanafanfawr, Llanbadarn Fawr, Dwyrain Llandrindod/Gorllewin Llandrindod, Gogledd Llandrindod, De Llandrindod, Llanelwedd, Llangattock, Llangors, Llangynllo, Llangynidr, Llanwrtyd Fewnol, Llanŷr, Maescar/Llywel, Nantmel, Pencraig, Llanadras, Rhaeadr Gwy, St.David Fewnol, St.John, St.Mary, Talgarth, Talybont-ar-Wysg, Tawe-Uchaf, Ynyscedwyn, Yscir, Ystradgynlais.

MONTGOMERYSHIRE COUNTY CONSTITUENCY (46,655) rhanbarthau etholiadol **Sir Powys:** Banwy, Aberriw, Blaen Hafren, Caersws, Yr Ystog, Dolforwyn, Forden, Glantwymyn, Cegidfa, Ceri, Llanbrynmair, Llandinam, Llandrinio, Llandysilio, Llanfair Caereinion, Llanfihangel, Llanfyllin, Llanidloes, Llanrhaeadr-ym-Mochnant, Llanrhaeadr-ym-Mochnant/Llansilin, Llansantffraid, Machynlleth, Meifod, Trefaldwyn, Canol y Drenewydd,

Dwyrain y Drenewydd, Y Drenewydd Gogledd Llanllwchaiarn, Y Drenewydd Gorllewin Llanllwchaiarn West, De Y Drenewydd, Rhiwcynon, Trewern, Castell y Trallwng, Y Trallwng Gungrog, Y Trallwng Llannerch Hudol.

9.6 Y rhanbarthau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon yw'r rhanbarthau etholiadol a grëwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- The County of Powys (Electoral Arrangements) Order 1998
- Gorchymyn Powys (Llanbadarn Fynydd, Llanbister ac Abaty Cwmhir) 2003

10. DE MORGANNWG

10.1 Roedd gan sir gadwedig De Morgannwg, a sefydlwyd adeg yr arolwg cyffredinol diwethaf, bum etholaeth gyda 317,369 o etholwyr yn 2003. Mae nifer etholwyr y pum sedd bresennol yn amrywio o 59,626 yn etholaeth Gorllewin Caerdydd i 68,698 yn etholaeth Bro Morgannwg. O ganlyniad i'r newidiadau a ddaeth yn sgîl Local Government (Wales) Act 1994 a The Bridgend and The Vale of Glamorgan (Areas) Order 1996, mae gan ardal sir gadwedig bresennol De Morgannwg 325,150 o etholwyr. Mae cyfanswm yr etholwyr, o'i rannu â chwota etholiadol 2003 (55,640), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 5.84 sedd. Esbonnir y cwota etholiadol ym mharagraff 15.5 isod.

10.2 Mae cynigion y Comisiwn yn golygu na fydd unrhyw newid i ffiniau Canol Caerdydd a Gogledd Caerdydd. Gwnaed newidiadau i ffiniau etholaethau Gorllewin Caerdydd, De Caerdydd a Phenarth, a Bro Morgannwg. Disgrifir y newidiadau a gynigir isod.

10.3 Mae'r Comisiwn yn cynnig cadw'r pum etholaeth bresennol, yn amodol ar y newidiadau manwl a ddisgrifir isod, er gwaethaf y byddai'r hawl ddamcaniaethol i 5.84 sedd ar gyfer y sir gadwedig yn tueddu i ffafrio dyraniad o chwe sedd yn hytrach na phum sedd. Maent wedi ystyried yn fanwl y ffyrdd posibl o gyflwyno ateb chwe sedd ar gyfer y sir gadwedig, ond daethant i'r casgliad na fyddai yr un ohonynt yn foddhaol, yn bennaf oherwydd yr anghyfleustra a'r amharu i gysylltiadau lleol y byddai diwygio radical i etholaethau De Morgannwg yn ei olygu. Maent wedi penderfynu y byddai nifer yr etholwyr yn y pum etholaeth a gynigir, er y byddent yn uwch na'r cwota etholiadol, o faint derbyniol ar gyfer pob un ac na fyddent yn arwain at wahaniaethau annerbyniol o gymharu ag etholaethau cyfagos.

10.4 O ganlyniad i'r newidiadau i ffiniau awdurdodau lleol a ffiniau cadwedig a ddaeth yn sgîl Local Government (Wales) Act 1994 mae etholaeth bresennol Pen-y-bont ar Ogwr yn croesi'r ffin rhwng siroedd cadwedig Morgannwg Ganol a De Morgannwg yn ardal Cymunedau Saint-y-brid, y Wig ac Ewenni. Felly er mwyn sicrhau bod ffiniau'r etholaethau yn cydfynd â ffiniau llywodraeth leol yn yr ardal hon, mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid cynnwys rhanbarth etholiadol Saint-y-brid a rhanbarth etholiadol Llandŵ/Ewenni yn ei gyfanrwydd o fewn etholaeth Bro Morgannwg.

10.5 O ganlyniad i Bridgend and The Vale of Glamorgan (Areas) Order 1996, rhennir rhanbarth etholiadol Llangrallo Isaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr rhwng etholaethau Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg. Gan fod y rhan o ranbarth etholiadol Llangrallo Isaf sydd o fewn etholaeth Bro Morgannwg hefyd yn gymharol fach ac nad oes unrhyw etholwyr yno, mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid cynnwys rhanbarth etholiadol Llangrallo Isaf yn ei gyfanrwydd o fewn etholaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

10.6 O ganlyniad i City and County of Cardiff (Electoral Arrangements) Order 1998, rhennir rhanbarth etholiadol Creigiau/Sain Ffagan yng Nghaerdydd rhwng etholaethau Gorllewin Caerdydd a Phontypridd. Yn ogystal, o ganlyniad i Local Government (Wales) Act 1994, caiff rhanbarth etholiadol Pentyrch yn etholaeth bresennol Pontypridd ei gynnwys o fewn sir gadwedig De Morgannwg. Felly er mwyn sicrhau na rennir rhanbarthau etholiadol rhwng etholaethau, mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid cynnwys rhanbarth etholiadol Pentyrch a rhanbarth etholiadol Creigiau/Sain Ffagan yn ei gyfanrwydd o fewn etholaeth Gorllewin Caerdydd yn Ne Morgannwg.

10.7 Arweiniodd Gorchymyn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg (Llanhari, Pont-y-clun, Penllyn, Llanddunwyd a Phendeulwyn) 2002 at rannu rhanbarthau etholiadol y Bont-faen rhwng etholaethau Ogwr a Bro Morgannwg (mân newid yn cynnwys dau eiddo). O ganlyniad i Orchymyn Siroedd Cadwedig 2003 mae hyn hefyd yn golygu rhaniad ar draws y ffin rhwng siroedd cadwedig Morgannwg Ganol a De Morgannwg. Felly er mwyn sicrhau na rennir rhanbarthau etholiadol rhwng etholaethau, mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid cynnwys rhanbarth etholiadol y Bont-faen yn ei gyfanrwydd o fewn etholaeth Bro Morgannwg yn sir gadwedig De Morgannwg.

10.8 Arweiniodd Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002 at rannu rhanbarth etholiadol Grangetown rhwng etholaethau De Caerdydd a Phenarth a Bro Morgannwg (nid oes neb yn byw yn yr ardal fach sydd o fewn etholaeth Bro Morgannwg). Mae'r Comisiwn yn cynnig y dylid cynnwys rhanbarth etholiadol Grangetown yn ei gyfanrwydd o fewn etholaeth De Caerdydd a Phenarth.

10.9 Yn dilyn y newidiadau a gynigiwyd uchod byddai nifer yr etholwyr o fewn y pum etholaeth fel a ganlyn: Canol Caerdydd (60,864), Gogledd Caerdydd (63,615), De Caerdydd a Phenarth (64,566), Gorllewin Caerdydd (64,587) a Bro Morgannwg (71,518).

10.10 Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o wahaniaeth rhwng nifer yr etholwyr yn etholaeth Bro Morgannwg a chyfartaledd y sir (a'r cwota etholiadol) mae'r Comisiwn yn cynnig yn ogystal y dylid cynnwys rhanbarth etholiadol y Sili o fewn etholaeth De Caerdydd a Phenarth yn hytrach nag yn etholaeth Bro Morgannwg. Mae'r Comisiwn yn ystyried y byddai'r newid hwn yn cyflawni cydraddoldeb gwell rhwng nifer yr etholwyr yn yr etholaethau heb gael effaith andwyol sylweddol ar gysylltiadau lleol.

10.11 Felly mae'r Comisiwn wedi penderfynu dyrannu pum sedd i Dde Morgannwg dros dro. Cyfansoddiad y pum etholaeth a argymhellir fyddai (dangosir nifer yr etholwyr yn 2003 mewn cromfachau):

CARDIFF CENTRAL BOROUGH CONSTITUENCY (60,864) rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd:** Adamsdown, Cathays, Cyncoed, Pentwyn, Penylan, Plasnewydd.

CARDIFF NORTH BOROUGH CONSTITUENCY (63,615) rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd:** Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Llysfaen, Ystum Llandaf, Llanishen, Pontprennau/Yr Hen Laneirwg, Rhiwbiena, Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais.

CARDIFF SOUTH AND PENARTH BOROUGH CONSTITUENCY (67,855) rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd:** Butetown, Grangetown, Llanrhymni, Tredelerch, Y Sblot, Trowbridge. Rhanbarthau etholiadol **Sir Bro Morgannwg:** Cornerswell, Llandough, Plymouth, St. Augustine's, Stanwell, Sili.

CARDIFF WEST BOROUGH CONSTITUENCY (64,587) rhanbarthau etholiadol **Sir Caerdydd:** Caerau, Treganna, Creigiau/Sain Ffagan, Trelai, Y Tyllgoed, Llandaf, Pentyrch, Radyr, Riverside.

VALE OF GLAMORGAN COUNTY CONSTITUENCY (68,229) rhanbarthau etholiadol **Sir Bro Morgannwg:** Baruc, Buttrills, Cadoc, Castleland, Court, Y Bont-faen, Dinas Powys,

Dyfan, Gibbonsdown, Illtyd, Llandow/Ewenni, Llanilltud Fawr, Llanbedr-y-fro, Y Rhws, Sain Tathan, Saint-y-brid, Gwenfô.

10.12 Y rhanbarthau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon yw'r rhanbarthau etholiadol a grëwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- The City and County of Cardiff (Electoral Arrangements) Order 1998 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Caerdydd (Ystum Taf, yr Eglwys Newydd, Llanisien, Llysfaen, Trelái a Sain Ffagan) 2003)
- Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002 (fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg (Llanhari, Pont-y-clun, Penllyn, Llanddunwyd a Phendeulwyn) 2002)

Fel y'u diwygiwyd gan:

- Gorchymyn Caerdydd a Bro Morgannwg (Llanfihangel-ynys-Afan a Grangetown) 2002.

11. GORLLEWIN MORGANNWG

11.1 Mae gan sir gadwedig Gorllewin Morgannwg bum etholaeth gyda 283,501 o etholwyr yn 2003. Mae nifer etholwyr y pum sedd bresennol yn amrywio o 50,422 yn etholaeth Aberafan i 60,524 yn etholaeth Gŵyr. Mae cyfanswm yr etholwyr, o'i rannu â chwota etholiadol 2003 (56,640), yn rhoi hawl ddamcaniaethol i 5.1 sedd. Esbonnir y cwota etholiadol ym mharagraff 15.5 isod.

11.2 Mae cynigion y Comisiwn yn golygu mân newid i ffiniau etholaethau Gŵyr a Chastell Nedd ac na fydd unrhyw newid i'r tair etholaeth arall.

11.3 O ganlyniad i Orchymyn Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe (Trebannws a Chlydach) 2002 gwnaed mân newid i ranbarthau etholiadol Clydach (Abertawe) a Threbannws (Castell Nedd Port Talbot) sy'n arwain at gynnydd o 11 o etholwyr yn rhanbarth etholiadol Clydach a gostyngiad cyferbyniol yn rhanbarth etholiadol Trebanos. Canlyniad y newid hwn yw bod rhanbarth etholiadol Clydach bellach wedi'i rannu rhwng etholaethau Gŵyr a Chastell Nedd. Gan fod holl ranbarth etholiadol Clydach ac eithrio rhan fach iawn o fewn etholaeth bresennol Gŵyr, mae'r Comisiwn wedi penderfynu adlinio'r ffin rhwng etholaethau Gŵyr a Chastell Nedd er mwyn cynnwys rhanbarth etholiadol Clydach yn ei gyfanrwydd o fewn etholaeth Gŵyr.

11.4 Mae'r Comisiwn wedi penderfynu peidio ag argymell newidiadau i unrhyw un o'r etholaethau presennol eraill, gan ystyried absenoldeb unrhyw gyfiawnhad sy'n ddigonol i orbwyso anghyfleustra ac amharu ar gysylltiadau lleol pe gwnaed newidiadau.

11.5 Felly mae'r Comisiwn wedi penderfynu dyrannu 5 sedd i Orllewin Morgannwg dros dro. Cyfansoddiad y pum etholaeth a argymhellwyd fyddai (dangosir nifer yr etholwyr yn 2003 mewn cromfachau):

ABERAVON COUNTY CONSTITUENCY (50,422) rhanbarthau etholiadol **Sir Castell Nedd Port Talbot:** Aberafan, Baglan, Dwyrain Llansawel, Gorllewin Llansawel, Bryn a Chwmafan, Coed-ffranc Canol, Gogledd Coed-ffranc, Gorllewin Coed-ffranc, Y Cymer, Glyncorrwg, Gwynfi, Margam, Port Talbot, Dwyrain Sandfields, Gorllewin Sandfields, Tai-bach.

GOWER COUNTY CONSTITUENCY (60,535) rhanbarthau etholiadol **Sir Abertawe:** Llandeilo Ferwallt, Clydach, Fairwood, Gorseinon, Gŵyr, Tre-gŵyr, Pontybrenin, Llangyfelach, Llwchwr Isaf, Mawr, Newton, Ystumllwynarth, Penclawdd, Penllergaer, Pennard, Penyrheol, Pontardulais, Llwchwr Uchaf, West Cross.

NEATH COUNTY CONSTITUENCY (56,982) rhanbarthau etholiadol **Sir Castell Nedd Port Talbot:** Aberdulais, Yr Allt-wen, Blaen-gwrach, Gogledd Bryn-côch, De Bryn-côch, Llangatwg, Cimla, Y Creunant, Cwmllynfell, Dyffryn, Glyn-nedd, Godre'r graig, Gwauncaegurwen, Brynamman Isaf, Dwyrain Castell-nedd, Gogledd Castell-nedd, De Castell-nedd, Onllwyn, Pelenna, Pontardawe, Resolfen, Rhos, Blaendulais, Tonna, Trebannws, Ystalyfera.

SWANSEA EAST BOROUGH CONSTITUENCY (57,226) rhanbarthau etholiadol **Sir Abertawe:** Bon-y-maen, Cwmbwrla, Glandwr, Llansamlet, Treforys, Mynyddbach, Penderi, St.Thomas.

SWANSEA WEST BOROUGH CONSTITUENCY (58,336) rhanbarthau etholiadol **Sir Abertawe:** Y Castell, Cocyd, Dyfnant, Gogledd Cilâ, De Cilâ, Mayals, Sgeti, Townhill, Uplands.

11.6 Y rhanbarthau etholiadol a enwir yn y ddogfen hon yw'r rhanbarthau etholiadol a grëwyd gan y Gorchmynion canlynol:

- The County Borough of Neath and Port Talbot Electoral Arrangements Order 1994,
- The City and County of Swansea (Electoral Arrangements) (No. 2) Order 1998

a ddiwygiwyd gan:

- Gorchymyn Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe (Trebannws a Chlydach) 2002.

12. RHANBARTHAU ETHOLIADOL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

12.1 Mae'r Comisiwn yn cynnig ailddiffinio rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad er mwyn cynnwys etholaethau arfaethedig Conwy ac Arfon o fewn rhanbarth Gogledd Cymru a chynnwys etholaethau arfaethedig Dwyfor Meirionnydd a Sir Drefaldwyn o fewn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru y Cynulliad. Maent hefyd yn cynnig y dylid cynnwys etholaeth ddiwygiedig Pen-y-bont ar Ogwr o fewn rhanbarth Gorllewin De Cymru ac y dylid cynnwys etholaeth ddiwygiedig Bro Morgannwg o fewn rhanbarth Canol De Cymru. Mae'r Comisiwn yn ystyried mai'r rhain yw'r newidiadau amlwg i'w gwneud o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig i'r etholaethau seneddol.

12.2 Cyfansoddiad pum Rhanbarth y Cynulliad a argymhellwyd dros dro fyddai (dangosir nifer etholwyr y Cynulliad yn 2003 mewn cromfachau):

Gogledd Cymru (459,718): Alyn and Deeside CC, Arfon CC, Clwyd South CC, Clwyd West CC, Conwy CC, Delyn CC, Vale of Clwyd CC, Wrexham CC, Ynys Môn CC.

Canolbarth a Gorllewin Cymru (426,058): Brecon and Radnorshire CC, Carmarthen East and Dinefwr CC, Carmarthen West and South Pembrokeshire CC, Ceredigion CC, Dwyfor Meirionnydd CC, Llanelli CC, Montgomeryshire CC, Preseli Pembrokeshire CC.

Gorllewin De Cymru (395,717): Aberavon CC, Bridgend CC, Gower CC, Neath CC, Ogmore CC, Swansea East BC, Swansea West BC.

Canol De Cymru (480,831): Cardiff Central BC, Cardiff North BC, Cardiff South and Penarth BC, Cardiff West BC, Cynon Valley CC, Pontypridd CC, Rhondda CC, Vale of Glamorgan CC.

Dwyrain De Cymru (470,878): Blaenau Gwent CC, Caerphilly CC, Islwyn CC, Merthyr Tydfil and Rhymney CC, Monmouth CC, Newport East CC, Newport West CC, Torfaen CC.

12.3 Ceir map o Ranbarthau'r Cynulliad a argymhellwyd dros dro yn Atodiad 9.

13. MANYLION CYHOEDDI

Cyhoeddi Argymhellion Dros Dro

13.1 Cyhoeddir hysbysiad o argymhellion dros dro y Comisiwn a lle y gellir dod o hyd iddynt yn ffurfiol mewn hysbysiad a fydd yn ymddangos mewn papurau newydd yng Nghymru ar 5 Ionawr 2003. Anfonir copi o'r argymhellion at awdurdodau lleol, AS, AC, Swyddfeydd Pencadlys y Pleidiau Gwleidyddol, ac eraill.

13.2 Cyhoeddir yr hysbysiad hefyd ar wefan y Comisiwn yn www.comffin-cymru.gov.uk.

Mannau Archwilio

13.3 Bydd yr hysbysiad yn y papurau newydd lleol hefyd yn rhoi'r cyfeiriadau o fewn yr etholaethau seneddol presennol lle cyflwynwyd copi o'r argymhellion a map manylach yn

eu dangos i'w archwilio gan y cyhoedd (noder y rhybudd hawlfraint isod yn ymwneud â'r map). Y cyfeiriadau hynny yw:

Aberavon	Swyddfeydd y Cyngor, Canolfan Ddinesig, Port Talbot SA13 1JP
Alyn and Deeside	Llyfrgell Gyhoeddus, Wepre Drive, Cei Connah CH5 4HA
Blaenau Gwent	Swyddfeydd y Cyngor, Canolfan Ddinesig, Glynebwy NP26 6XB
Brecon and Radnorshire	Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Cambrian, Aberhonddu LD3 7HR
	Neuadd y Sir, Llandrindod LD1 5LG
	Swyddfa Ardal Trefyclo, Y Llyfrgell, Trefyclo
Bridgend	Swyddfeydd y Ddinas, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB
Caernarfon	Swyddfeydd y Sir, Caernarfon LL55 1SH
Caerphilly	Swyddfeydd y Cyngor, Ystrad Fawr, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7SF
Cardiff Central)	Neuadd y Ddinas, Caerdydd CF10 4UW
Cardiff North)	Llyfrgell yr Eglwys Newydd, Park Road, Yr Eglwys Newydd CF14 7XA
Cardiff South and Penarth)	Llyfrgell Grangetown, Stryd Redlaver, Grangetown CF11 7LY
)	Tŷ'r Gorllewin, Ffordd Stanwell, Penarth CF64 2YG
Cardiff West)	Llyfrgell Treganna, Library Street, Treganna CF5 1QD
Carmarthen East and Dinefwr	Swyddfeydd y Cyngor, Crescent Road, Llandeilo SA19 6HW
Carmarthen West and South Pembrokeshire	Gwasanaethau Statudol, 1 Stryd Spilman, Caerfyrddin SA31 1LE
Ceredigion	Llyfrgell Aberaeron, Neuadd y Sir, Heol Farchnad, Aberaeron SA46 0AT
Clwyd South	One Stop Shop, Y Capel, Stryd y Castell, Llangollen LL20 8NU
Clwyd West	Trem Clwyd, Canol y Dre, Rhuthun LL15 1QA
Conwy	Swyddfeydd y Cyngor, Bodlondeb, Conwy LL32 8DU
Cynon Valley	Llyfrgell Ganolog, Stryd Fawr, Aberdâr CF44 7AG
Delyn	Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NB
Gower	Uned Wybodaeth Ganolog Gorseinon, Lime Street, Gorseinon
Islwyn	Swyddfeydd y Cyngor, Pontllanffraith, Y Coed Duon NP12 2YW
Llanelli	Llyfrgell Llanelli, Llanelli SA15 3AS
Meirionnydd Nant Conwy	Llyfrgell Llanrwst, Plas yn Dre, Ffordd yr Orsaf, Llanrwst LL26 0DF
	Swyddfeydd y Cyngor, Cae Penarlag, Dolgellau LL40 2YB
Merthyr Tydfil and Rhymney	Canolfan Ddinesig, Stryd y Castell, Merthyr Tudful CF47 8AN
Monmouth	One Stop Shop, Cross Street, Y Fenni NP7 5HD
	One Stop Shop, Neuadd y Farchnad, Priory Street, Trefynwy NP25 3XA
Montgomeryshire	Neuadd Ardal y Trallwng, Severn Road, Y Trallwng SY21 7AS
	Swyddfa'r Ardal, Swyddfeydd y Parc, Y Drenewydd SY16 2NZ
Neath	Swyddfeydd y Sir, Canolfan Ddinesig, Castell-nedd SA11 3QZ

Newport East	)	Canolfan Ddinesig, Casnewydd NP20 4UR
Newport West	)	Llyfrgell Maendy, Chepstow Road, Casnewydd NP19 8BY
Ogmore		Llyfrgell Maesteg, Lôn y Gogledd, Maesteg CF34 9AA
		Llyfrgell Nantymoel, Canolfan Berwyn, Stryd Ogwy, Nantymoel CF32 7SD
Pontypridd		Swyddfa Gofrestru Etholiadol, 4-8 Stryd yr Eglwys, Pontypridd CF37 2TH
Preseli Pembrokeshire		Canolfan Gwasanaeth Cwsmeriaid, North Wing, Neuadd y Sir, Hwlffordd SA61 1TP
Rhondda		Swyddfeydd y Cyngor, Y Pafiliwn, Parc Cambrian, Cwm Clydach CF40 2XX
Swansea East	)	Llyfrgell Treforys, Heol Treharne, Abertawe SA6 7AA
Swansea West	)	Y Guildhall, Abertawe SA1 4PN
Torfaen		Canolfan Ddinesig, Pont-y-Pŵl NP4 6YB
Vale of Clwyd		Swyddfeydd y Cyngor, Russell House, Ffordd Churton, Y Rhyl LL18 3DP
Vale of Glamorgan		Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Bari CF63 4RU
		Neuadd y Dref, Y Bontfaen CF61 1SD
Wrexham		Neuadd y Dref, Wrecsam LL11 1WF
Ynys Môn		Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW

14. CYFNOD AR GYFER CYFLWYNO SYLWADAU: 5 IONAWR 2004 I 6 CHWEFROR 2004

14.1 Mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried sylwadau ar eu hargymhellion dros dro ar gyfer pob ardal arolwg a wneir o fewn mis o'u cyhoeddi ar 5 Ionawr 2004. Dylid cyfeirio sylwadau at y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Tŷ Caradog, 1-6 Plas Sant Andreas, Caerdydd, CF10 3BE, neu eu ffacsio i 02920 395250, neu anfon neges e-bost at comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk. Oherwydd y cyhoeddwyd yr argymhellion dros dro ar gyfer yr wyth ardal arolwg yng Nghymru ar yr un pryd, mae'r Comisiwn yn gofyn i bawb nodi y dylai'r holl sylwadau egluro pa ardal neu ardaloedd y maent yn cyfeirio atynt. Caiff yr holl sylwadau a dderbynnir gan y Comisiwn eu cydnabod. Daw'r cyfnod cyflwyno sylwadau i ben ar 6 Chwefror 2004.

14.2 Noder nad yw'n ofynnol i'r Comisiwn yn statudol ystyried unrhyw sylwadau a wneir ar ôl 6 Chwefror 2004, ond bydd yn ceisio ystyried sylwadau a dderbynnir yn hwyr. Fodd bynnag, po hwyraf y cyflwynir y sylwadadau, y mwyaf anodd fydd hyn. Felly dylid cyflwyno'r holl sylwadau i'r Comisiwn o fewn y cyfnod o fis. Os cynhelir ymchwiliad lleol i'r argymhellion dros dro, cyhoeddir yr holl sylwadau ymlaen llaw fel y gall personau â diddordeb baratoi ar gyfer yr ymchwiliad lleol. Ni ellir rhoi'r un pwys i unrhyw sylwadau a dderbynnir yn rhy hwyr i gael eu cyhoeddi gyda'r sylwadau eraill cyn yr ymchwiliad lleol â'r hyn a roddir i'r sylwadau eraill oherwydd ni fydd personau eraill â diddordeb wedi cael yr un cyfle i'w ystyried.

14.3 Pan gaiff sylwadau sy'n gwrthwynebu'r argymhellion dros dro eu cyflwyno gan gyngor sir â diddordeb neu gan gorff o 100 neu fwy o etholwyr, ni all y Comisiwn barhau â'u hargymhellion terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol nes y cynhelir ymchwiliad lleol. Os bydd y Comisiwn yn penderfynu newid eu hargymhellion o ganlyniad i'r ymchwiliad, rhaid cyhoeddi'r argymhellion diwygiedig hefyd a gwahodd sylwadau, ond nid oes rhaid cynnal ymchwiliad lleol arall.

14.4 Gofynnir i'r rhai hynny sy'n cyflwyno sylwadau ddweud p'un a ydynt yn cymeradwyo neu'n gwrthwynebu cynigion y Comisiwn ac i roi eu rhesymau dros eu cymeradwyaeth

neu eu gwrthwynebiad. Yn benodol, cynghorir gwrthwynebwyr i nodi'r hyn maent yn ei gynnig yn lle argymhellion y Comisiwn a dylid nodi bod gwrthwynebiad sy'n cynnwys gwrthgynnig yn debygol o gario mwy o bwysau na datganiad syml o wrthwynebiad.

14.5 Dymuna'r Comisiwn bwysleisio bod eu hargymhellion dros dro yn ymwneud ag etholaethau seneddol yn unig ac nad ydynt yn effeithio ar ffiniau, trethi na gwasanaethau awdurdodau unedol neu gymunedol. Felly ni fydd y Comisiwn yn ystyried unrhyw sylwadau a wnaed am y materion lleol hyn.

15. NODYN CEFNDIR

15.1 Sefydlwyd y Comisiwn o dan Adran 2 ac Atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986. Llefarydd Tŷ'r Cyffredin yw'r Cadeirydd yn rhinwedd ei swydd. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n llywyddu cyfarfodydd y Comisiwn, yn Farnwr Uchel Lys a benodwyd gan yr Arglwydd Ganghellor. Penodir un Comisiynydd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru a phenodir y Comisiynydd arall gan y Dirprwy Brif Weinidog. Y ddau Asesydd i'r Comisiwn yw Cofrestrydd Cyffredinol Cymru a Lloegr a Chyfarwyddwr Cyffredinol Arolwg Ordnans. Cyfreithwyr yw'r Comisiynwyr Cynorthwyol a benodir gan y Dirprwy Brif Weinidog i gynnal ymchwiliadau lleol.

15.2 Mae'n ofynnol i'r Comisiwn yn ôl Parliamentary Constituencies Act 1986 as amended by the Boundary Commissions Act 1992 gynnal arolwg cyffredinol o'r holl etholaethau yng Nghymru bob wyth i ddeuddeg mlynedd. Cwblhaodd y Comisiwn eu harolwg cyffredinol diwethaf ar 12 Ebrill 1995 ac felly mae'n rhaid iddynt gwblhau'r arolwg presennol ar ôl 11 Ebrill 2003 a chyn 12 Ebrill 2007. Dymuna'r Comisiwn gwblhau'r arolwg presennol mewn digon o amser i'r ffiniau etholaethau newydd gael eu cymeradwyo gan y Senedd ac i fod yn weithredol mewn unrhyw etholiad cyffredinol a gynhelir yn 2006 neu 2007.

15.3 Dechreuodd yr arolwg cyffredinol yn ffurfiol wrth gyhoeddi hysbysiad yn y London Gazette ar 16 Rhagfyr 2002. Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i argymhellion y Comisiwn drwy gydol yr arolwg fod yn seiliedig ar nifer yr etholwyr ar y cofrestrau etholiadol ar y dyddiad hwnnw.

Rheolau

15.4 Wrth argymell etholaethau newydd, gofynnir i'r Comisiwn weithredu'r Rheolau ar gyfer Ailddosbarthu Seddi a gynhwysir yn Atodlen 2 Deddf 1986.

15.5 Mae Rheol 1 yn cyfyngu ar gyfanswm nifer yr etholaethau. Mae Rheol 2 yn mynnu etholaethau un aelod. Mae Rheol 3 yn ymwneud â Dinas Llundain. Mae Rheol 4 yn nodi y dylid dilyn ffiniau siroedd *(siroedd cadwedig yng Nghymru)* cyn belled ag y bo'n ymarferol. Mae Rheol 5 yn nodi y dylai nifer yr etholwyr mewn etholaethau fod mor agos i'r cwota etholiadol ag y bo'n ymarferol. Mae Rheol 6 yn caniatáu i'r Comisiwn ymadael o reolau 4 a 5 os bydd ystyriaethau daearyddol arbennig yn gwneud ymadawiad yn ddymunol. Mae Rheol 7 yn caniatáu i'r Comisiwn ymadael o reolau eraill, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ystyried yr anghyfleustra a achosir gan newidiadau i etholaethau (ac eithrio newidiadau a wneir at ddibenion rheol 4) neu gysylltiadau lleol a gaiff eu torri gan newidiadau o'r fath. Mae Rheol 8 yn diffinio'r cwota etholiadol fel cyfanswm nifer yr etholwyr seneddol yng Nghymru **(2,225,599)** wedi'i rannu â nifer y seddi presennol **(40)**, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn ddefnyddio nifer yr etholwyr fel ar ddechrau arolwg.

Rhanbarthau Etholiadol y Cynulliad

15.6 Etholaethau'r Cynulliad yw'r etholaethau seneddol yng Nghymru. Mae pum rhanbarth etholiadol gan y Cynulliad (Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru, Canol De Cymru, Dwyrain De Cymru, Gorllewin De Cymru). Wrth iddynt argymell newid etholaethau seneddol dros dro, mae'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried p'un a oes angen unrhyw newid i ranbarthau etholiadol y Cynulliad neu yn y ffordd y dyrennir y seddi i

ranbarthau etholiadol y Cynulliad i weithredu'r rheolau a geir yn Atodlen 1 Government of Wales Act 1998.

15.7 Mae Rheol 1 yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o etholaethau'r Cynulliad gael eu cynnwys yn gyfan gwbl o fewn un o ranbarthau etholiadol y Cynulliad. Mae Rheol 2 yn ei gwneud yn ofynnol i etholaethau rhanbarthau etholiadol y Cynulliad fod bron yn gyfartal cyn belled ag y bo hynny'n ymarferol, o ystyried (lle y bo'n briodol) ystyriaethau daearyddol arbennig. Mae Rheol 3 yn nodi y bydd nifer seddi'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau etholiadol y Cynulliad naill ai yn hanner cyfanswm nifer etholaethau'r Cynulliad neu, os na ellir rhannu'r cyfanswm â dau, un hanner y cyfanswm ac ychwanegu un. Mae Rheol 4 yn nodi y bydd nifer seddi'r Cynulliad ar gyfer un o ranbarthau'r Cynulliad naill ai yn un rhan o bump o'r nifer a gyfrifir o dan Reol 3 neu, os na ellir rhannu cyfanswm Rheol 3 â phump, naill ai un rhan o bump o'r nifer uchaf sy'n llai na'r cyfanswm hwnnw ac y gellir ei rannu'n union â phump neu'r nifer a gynhyrchir drwy ychwanegu un i un rhan o bump o'r rhif uchaf hwnnw (nodir y gweithdrefnau ar gyfer cyfrifo nifer a dyraniad y seddi sy'n weddill yn is-baragraffau (2) i (4) Atodlen 1).

Gweithdrefnau

15.8 Wrth gynnal arolwg cyffredinol o'r etholaethau, mae'n ofynnol i'r Comisiwn yn ôl y ddeddfwriaeth ddilyn gweithdrefnau penodol, yn bennaf i ddarparu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

15.9 Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael rhybudd o arolwg ac mae'n rhaid cyhoeddi'r rhybudd hwnnw yn y London Gazette. Mae'n rhaid cyhoeddi argymhellion dros dro mewn papurau newydd yn yr etholaethau yr effeithir arnynt ac, oni bai fod y cynigion yn nodi na ddylid gwneud unrhyw newidiadau, mae'n rhaid iddynt hefyd gael eu cyflwyno ar gyfer archwiliad cyhoeddus mewn o leiaf un lle ym mhob etholaeth yr effeithir arni. Gellir cyflwyno sylwadau o fewn un mis o gyhoeddi'r argymhellion dros dro ac mae'n rhaid i'r Comisiwn ystyried unrhyw sylwadau. Lle derbynnir gwrthwynebiadau gan gyngor sir neu gyngor dosbarth neu gorff o 100 neu fwy o etholwyr, mae'n rhaid cynnal ymchwiliad lleol. Os bydd y Comisiwn yn adolygu eu hargymhellion o ganlyniad i ymchwiliad, mae'n rhaid cyhoeddi'r sylwadau diwygiedig hefyd a gwahoddir ac ystyrir rhagor o sylwadau. Ni ellir gorfodi ail ymchwiliad lleol gan y sylwadau pellach hyn, ond ceir pŵer yn ôl disgresiwn i gynnal ail ymchwiliad. Mae'n rhaid cyhoeddi unrhyw ddiwygiadau pellach, o ganlyniad i sylwadau pellach neu ail ymchwiliad, a gwahodd sylwadau. Pan fydd y Comisiwn wedi penderfynu ar eu hargymhellion terfynol ar gyfer y wlad gyfan, mae'n rhaid iddynt gyflwyno adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Gweithredu'r argymhellion

15.10 Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddyletswydd statudol i gyflwyno adroddiad y Comisiwn gerbron y Senedd ynghyd â Gorchymyn mewn Cyngor drafft sy'n gweithredu argymhellion y Comisiwn gyda newidiadau neu heb newidiadau. Os cynigir newidiadau, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd gyflwyno datganiad o resymau ar gyfer y newidiadau. Caiff y Gorchymyn mewn Cyngor drafft ei gyflwyno i'r ddau Dŷ Seneddol i'w gymeradwyo ac, wedi iddo gael ei gymeradwyo gan Ei Mawrhydi mewn Cyngor, ni ellir ei gwestiynu mewn unrhyw achos cyfreithiol. Bydd yr etholaethau newydd yn weithredol yn yr etholiad cyffredinol nesaf.

15.11 Canllaw cyffredinol yn unig yw'r wybodaeth uchod. Ar gyfer datganiad diffiniedig o'r gyfraith, cyfeiriwch at Parliamentary Constituencies Act 1986 – as amended by the Boundary Commissions Act 1992, y Local Government (Wales) Act 1994, y Government of Wales Act 1998, a y Scotland Act 1998 – ynghyd â phenderfyniad y Llys Apêl R v Boundary Commission for England Ex parte Foot [1983] QB 600.

Hawlfraint y Goron

15.12 Cynhyrchwyd y mapiau a ddosbarthwyd yn y cyfeiriadau a restrwyd uchod ar gyfer y Comisiwn Ffiniau i Gymru gan Ordnance Survey, Romsey Road, Southampton SO16 4GU (rhif ffôn 08456 05 05 05 neu 08456 05 05 04 ar gyfer y llinell gymorth Gymraeg). Mae'r mapiau hyn a'r mapiau sy'n ffurfio rhan o'r ddogfen hon yn amodol ar (h) Hawlfraint y Goron. Bydd ailgynhyrchu heb awdurdod yn torri Hawlfraint y Goron a gall arwain at erlyniad neu achos sifil. Dylai unrhyw olygydd papur newydd sy'n dymuno defnyddio'r mapiau fel rhan o erthygl am yr argymhellion dros dro gysylltu â Swyddfa Hawlfraint Arolwg Ordnans yn gyntaf.

Ymholiadau

15.13 Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch am yr argymhellion dros dro hyn neu am unrhyw agwedd arall ar waith y Comisiwn cysylltwch â:

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd
CF10 3BE

Ffôn: 02920 395031
Ffacs: 02920 395250

Ebost: comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk

Mae fersiwn y Rhyngrwyd o'r argymhellion dros dro hyn a'r mapiau amlinellol bellach ar gael yn:

www.comffin-cymru.gov.uk